SUL CYFFREDIN 15

GENESIS 45:1-15; SALM 133;
RHUFEINIAID 11:1-2A, 29-32; MATHEW 15:[10-20] 21-28

● **Gweddi agoriadol**

Dduw y gwawrio,
rwyt ti yno pan ddeffrown y bore,
i groesawu'r diwrnod newydd.

Dduw'r bore,
rwyt ti'n bresennol ar ein taith,
ein cynorthwywr ar ein ffordd.

Dduw canol dydd,
rwyt ti gyda ni yn ein dod ynghyd;
mewn cyfeillgarwch fe'n bendithir.

Dduw gyda'r nos,
rwyt yn ein hymlacio,
ein gorwedd i lawr i orffwys.

● **Moliant**

Dduw ffyddlon,
a ddewisodd un bobl
i dderbyn dy fendith,
er mwyn, drwyddynt hwy,
y caet dy ddatguddio
i'r holl bobloedd,
bendithiwn dy enw ardderchog.

Dduw ffyddlon,
sydd drwy un person,
Iesu Grist ein Gwaredwr,
yn dwyn trugaredd,
heddwch a gwaredigaeth
i'r holl bobl,
bendithiwn dy enw ardderchog.

● **Cyffes**
Gofynni i ni
fod yn bresenoldeb i ti
yn y byd hwn,
i wahodd eraill i'th deyrnas,
i fwydo'r newynog,
i iacháu'r cleifion,
ac eto dyw'n geiriau
ddim yn adlewyrchu ein ffydd.
Dyna ein siom.

Maddau i ni
a glanha ein calonnau,
fel bo'r geiriau a lefarwn
yn unig yn rhai
sy'n calonogi,
yn dwyn iachâd,
  cyfanrwydd,
    bendith
a gogoniant i'th enw.

● Diolch

Diolch i ti
am y bobl gyffredin
sy'n dwyn i'n bywydau
ddoethineb, cariad,
a gair yn ei le,
trugaredd,
tangnefedd.
Pobl gyffredin
sydd drwy rym yr Ysbryd
yn rhai anghyffredin
yn dy wasanaeth.
Pobl gyffredin
sydd drwy gariad Crist
yn dod â phresenoldeb Duw
i'n bywydau.
Wrth roi
bydded iddynt dderbyn
a boed i'w bywydau gael eu bendithio yn wir.